

111)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader Medi 16eg 2019—16/09/19-- 8pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies(cadeirydd/chairman)E. Jones,B.Cobain,Arwel Davies,D.Davies,V.Davies,H.Lewis,S.Mason.Y.Griffiths,M Evans,G.Jones,C.Sir L.Evans.

Ymddiheuriadau(apologies)--- M.Griffiths.

Clerc:Anita Evans, Heddlu/Police:neb; Ymwelwyr/visitors:none.

Am 7.15 bu cyfarfod o'r is-bwyllgor cyllid i drafod Cyllideb 2019—2020.Roedd H.Lewis wedi dod â mantolen i'w rhannu i'r aelodau-a diolch iddi am ei gwaith.Mae cyfrif banc Newydd gan y Cyngor;agorwyd hwn i hwyluso talu D.Debit i raglen cyflogau.Gobeithir gwella toiledau Alltwalis,a Phencader ac ail-agor safle Pencader.7.15pm finance committee— statement prepared for 2019=20 Budget by H.Lewis(who was thanked)and discussed.We have opened a new bank account in order to facilitate direct debits.Water bills will be paid in this way in future.It is hoped to carry out repairs on Alltwalis and Pencader public toilets.

(members of sub—committee:(chairman,H.Lewis,E.Jones,D.Davies,Y.Griffiths)

1)Dechreuodd cyfarfod mis Medi am 8yh.Croesawodd Annette Davies(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod.

2)Datgan diddordeb gan y Cynghorwyr/declaration of interest —none.

3)Heddlu—PCSO wedi methu dod i'r cyfarfod.Roedd wedi anfon adroddiad fod nifer o ddigwyddiadau o ddwyn eiddo wedi digwydd; yn Nolgran(diesel o dractor);Pencader(olew gwresogi)a mynydd Llanllwni(defaid).Mae wedi bod allan yn arolygu cyflymder traffig gyda phlant ysgol Cae'r Felin,ac mae adolygiad wedi bod ym Mhencader ble mae'r system ildio'r ffordd ar bwys Cae'r Felin.Mae'r heddlu yn annog y C.Cymuned i ofyn am oleuadau traffig.No police present,but the PCSO had sent an update.There have been a spate of thefts in the area;Dolgran(diesel from a tractor);Pencader(heating oil)and Llanllwni mountain(sheep).The PCSO has been monitoring speed outside the school with pupils of Cae'r Felin;the police have made an inspection of the road with the give way filter arrow system near the school.We are advised to ask highways for traffic lights.

4)Cofnodion mis Gorffennaf—roedd un pwynt i newid.Rhwng Cross Inn a'r sgwar mae'r arwydd nid ar gyrrion pentre Llanfihangel ar arth.Cafwyd gweddill cofnodion mis Gorffennaf yn gywir/minutes found to be correct—
prop.V.D.sec.D.D.

5)Materion yn codi/matters arising:

a)Portaloo—fandaliaeth-yn anffodus,mae'r uned yma wedi cael ei difrodi'n enfawr,a bydd bil ychwanegol yn dod i'r Cyngor.Hefyd fe fydd yr uned yn mynd o Bencader;enghraiifft arall o unigolion yn difetha bywyd y mwyafrif. On Sept.9th,the portaloo in Pencader suffered another spate of vandalism—this one the absolute worst,which will see this Council having to pay a repair bill.The unit will be removed from Pencader as soon as possible;individuals have spoilt an important amenity for the Parish.The Police are involved.

b)Cornel Chwarae,Pencader—fandaliaeth wedi digwydd yma hefyd—bachgen 15oed wedi difrodi cadwyn a chlo ar y iet gefn;mae wedi ei ddal ar cctv,ac mae'r heddlu'n delio gyda'r mater.A 15yr old boy has been caught on cctv tearing a chain and padlock away from the rear gate in Pencader Play Corner(for under 14s).The police are dealing.

c)Mae 3 defibrillator wedi eu gosod gan y C.Cymuned;ar wal y Fynwent,wal allanol Capel Gwyddgrug,ac arosfan bws Alltwalis.Byddwn yn edrych ar leoliad i osod un yn Nolgran.Bydd y Clerc yn cysylltu â Chwmni Cariad i drefnu hyfforddiant.3 defibrillators have been sited in Pencader;on the outside wall of the Public Cemetery,outside wall of Gwyddgrug Chapel,and in Alltwalis bus stop.The Clerk will contact the company to arrange training.

112) 5) Materion/matters arising contd.

ch)ciosgau ffon—Cyngor Sir wedi gofyn a ydyn ni am gadw 2 giosg yn y Plwyf—ac wedi cael yr ateb nad ydym/Co.C.have asked if we want to retain 2 telephone kiosks in the Parish—and we have decided not to adopt.

d)Cynghorwyr wedi cwrdd â Tony Williams(Priffyrdd)ar y troad yn agos i'r arosfan bws top rhiw Alltwalis i drafod y llecyn sy wedi ei lanw fewn,a'r adnodd tynnu fewn ger yr arosfan bws wedi ei golli.Mae'n debyg na allwn neud dim i wella'r sefyllfa.Hefyd aethon i weld mynedfa'r Fferm Wynt,yn dilyn cwynion am ddŵr yn gorlifo ochr draw Llwynwallter a White Hart.Mae T.Williams am aros i weld y sefyllfa pan mae'r tywydd yn wlyb.Members of this Council met with Tony Williams(Highways)near the bus stop on Alltwalis hill,to discuss the verge that has been filled in,and in the past used to pull in for bus passengers etc.Apparently,there is nothing we can do to improve the situation,and the facility has been lost for good.We also visited the entrance to the Wind Farm to see the flooding problem on the road;Tony Williams wants to visit in wet weather.

dd)Mae'r Cyngor yma wedi ymuno â phrosiect LED y Sir/we are signed up for the LED project with the Co.Council.

e)V.Davies wedi gofyn a oes tai fforddadwy i fod ar seit Blossom-dim ateb oddiwrth y cwmni/we have asked the architects dealing with the Blossom development if there will be affordable housing included-no answer so far.

f)Les y toiledau—adran gyfreithiol heb ymateb/no answer from the legal dept.C.Co.Council re leases for the 2 toilets.Confirmation that we will get financial help for Alltwalis for the first 3 years,but none for Pencader.

ff)Bro'r Hen Wr—Clerc wedi siarad â Gary Clarke am sefyllfa warthus cefn y safle,diffyg golau a phalmant gwael—mae wedi addo cwrsor datblygwr/we have reported the poor conditions at B.Hen Wr Pencader yet again.

g)sustem un ffordd ar bwys Cae'r Felin—byddwn yn gofyn am oleuadau traffig,gyda chefnogaeth yr Heddlu.We have complained consistently re the failure of the one way traffic system near Pencader school—and with the Police support we will request traffic lights.

ng)Bydd y Clerc a Val Davies yn mynd i'r cyfarfod Blynyddol/the Clerk and Val Davies will attend the Agm.

h)Mae hylif yn dal i redeg o safle Blossom i'r draeniau,a'r gofid yw fod chemicals yn mynd i'r afon/water with detergent still flows from Blossom car wash—C.C.L.Evans will deal.

i)cyfarfod yn Nolgran 5.30yp i chwilio am safle i'r defibrillator/Dolgran meeting 5.30 to site defibrillator (18/10)

6)Ariannol/financial: cafwyd yr adroddiad yn gywir/statement correct-prop.B.Cobain;sec.S.Mason.Biliau i'w talu/bills to be paid:cyflogau/wages (Aug,Sept):£4,011.25;Sage(3 months)£49.55;aelodaeth y Clerc/membership of ALCC and SLCC--£162.00;SCL(domain)-£36.00;U.LL.Cymru/AGM-£180.00;Kangaloos--£120.00;Costau/Clerk's costs-£62.37;D.Davies(teithio)-£19.80;Dwr Cymru—Pencader-£16.00;Alltwalis-£13.33.Pasiwyd eu talu/to be paid:prop.V.Davies,sec.B.Cobain.

Taliadau i'r Banc:Praecept:£16,333.34;ffioedd y Fynwent:£800.00.

7)Cynllunio/planning(C.C.L.Evans took no part)

Roedd y canlynol wedi eu e-bostio/the following applications had been e-mailed to Councillors,with no objection:

Sticle x 2;Statkraft(hard standing and lay byes route to Brechfa West).

8)Gohebiaeth/Correspondence:

C.Sir Gar/Carm Co.Council:;)Hyfforddiant Côt Ymddygiad/Code of Conduct training—information pack.

113) 8)Gohebiaeth/Correspondence: Eraill/other:

1)E bost H.Lewis---cysgodfan top rhiw Alltwalis yn frwnt iawn;hewl Bee Hive allan i gwrdd a Hewl Talog—mynd yn amhosib i'w defnyddio achos gor dyfiant/the bustop at the top of Alltwalis hill needs cleaning;it is almost impossible to drive on the road from the Beehive up to meet the Lla'el/New Inn junction with overgrown trees.

2)Maer Caerfyrddin yn anfon gwahoddiad i ddigwyddiad yng Nghaerfyrddin Medi 21ain i godi baner Heddwch Rhyngwladol/Mayor of Carmarthen has sent an invitation to an event in the town on 21/09 to raise the World Peace banner.

3)Arolwg trefniadau etholiadol Sir Gâr/electoral arrangements review for Carmarthenshire.

4)Adroddiad Blynyddol/annual Audit has issued our annual certificate.

5)Jane Griffiths wedi anfon e-bost yn datgan ei gofid am y darnau concrit yn afon Talog,ac yn gofyn a fydd y bloc toiledau yn cael eu hagor/worries regarding the 2 blocks of concrete in Afon Talog,and asks if the toilet block in Pencader will re-open.

9)U.F.Arall/A.O.B—information only:

V.Davies—angen sylw ar y palmant o flaen Arwerydd;eisiau torri coed o Benrhiw i Bontweli;arwydd 30mya cyn Waunifor yn cuddio'n y tyfiant,ac hefyd yr arwydd Gyrrwch yn ofalus/the pavement outside Arwerydd needs a new bollard;trees need cutting from Penrhiw to Pontweli;overgrowth hiding road signs in Pontweli.

D.Davies—cerrig mân yn casglu wrth y troad i Valley Services;dŵr yn cronni ar y ffordd fewn I Lan'el o Lanllwni/chippings on the junction towards V.Services;water on the road into Llanfihangel from Lanllwni.

G.Jones-wedi torri porfa cae y Fynwent,ac yn trefnu gyda'r cymydog i dorri'r clawdd/has cut the Cemetery field.

B.Cobain-twll o flaen iard y Cyngor ym Mhencader/reports a hole outside the Council depot in Pencader.

M.Evans—draen wedi torri/manhole has collapsed outside Nantgwyn,New Inn.

C.Sir L.Evans—mynd i drefnu cyfarfod/will arrange a meeting to create a facility for young people in Pencader.

Arwel Davies—atgoffa am sedd arosfan bws wedi torri/reminder of the broken bench in the bus-stop at Alltwalis hill.

E.Jones—biniau stryd ddim yn cael eu gwagio/street bins at various locations not emptied regularly.

Y.Griffiths—golau fflachio/speed warning light near Bro Nantlais still not repaired.

Cadeirydd—nifer o dyllau ar hewl Maescader/number of potholes on the site.(next meeting agenda Glanawmorisa path).

Clerc—wedi cael cais am fin ail-gylchu gwydr ar safle Pentop,Llanllwni—bydd rhaid gwneud cais I Gyngor Bro Llanllwni/we will request a glass re-cycling bin at Pentop.

